# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb 5 Tachwedd 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau )**

Gofyn i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A fudd hi'n gosod terfyn ar yr hyn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi ar gyfer adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru. (WAQ1978VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw penderfyniad y Cabinet i ganiatau i gynghorau godi treth ychwanegol er mwyn helpu cynghorau sy'n methu, yn golygu rhoi grym i'r Cynulliad godi treth. (WAQ1963VB)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd y gost ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i'r cynnydd diweddar yn y doll stamp. (WAQ1972VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa gamau a gymerwyd ganddo hyd yma i sefydlu gwell gyfundrefn o ailgylchu gwastraff yng Nghymru, ac a wnaiff ef gais i ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol o Ewrop yn y flwyddyn 2000-2001 i'r perwyl hwn. [w]

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau'r gostyngiadau mewn nwyon ty gwydr y cytunwyd arnynt yn Kyoto ym 1997. (WAQ1970VB)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)** Beth yw gwerth y grantiau a roddwyd gan y Swyddfa Gymreig i helpu â chostau glanhau tir halogedig yng Nghymru ym 1996/97, 1997/98 a 1998/99. (WAQ1976VB)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o dai a oedd yn eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu'u cyfatebol oedd yn wag ar 31 Mawrth 1997, 31 Mawrth 1998 a 31 Mawrth 1999. (WAQ1975VB)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o dai a oedd yn eiddo i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru oedd yn wag ar 31 Mawrth 1997, 31 Mawrth 1998 a 31 Mawrth 1999.(R) (WAQ1974VB)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o dai a oedd yn eiddo i'r Swyddfa Gymreig oedd yn wag ar 31 Mawrth 1997, 31 Mawrth 1998 a 31 Mawrth 1999. (WAQ1973VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw wedi asesu faint o swyddi a gollir pe bai Cymru yn chwarae ei rhan i ysgwyddo'i chyfrifoldebau o dan gytundeb Kyoto i leihau nwyon ty gwydr. (WAQ1971VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatgan hynt y trafodaethau rhwng y Cabinet a'r Adran Addysg a Chyflogaeth ynghylch rhoi'r cyfrifoldeb am reoli'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yng Nghymru i Gymru. (WAQ1969VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o swyddi newydd yn rhanbarth Canol De Cymru sydd wedi'u cymryd gan bobl y Fargen Newydd (WAQ1968VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o oriau dysgu a gollir pan fydd athrawon yn ymgymryd â'r gwaith asesu sydd ynghlwm â'r cynllun tâl yn ôl perfformiad. (WAQ1967VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gynigion sydd ganddi i helpu athrawon sy'n methu'n gyson â chyrraedd y targedau perfformiad cenedlaethol. (WAQ1966VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Sut mae hi'n bwriadu mynd i'r afael â'r gwahaniaethau posib rhwng cyflogau dirprwy benaethiaid a chyflogau athrawon a wobrwyir o dan y cynllun tâl yn ôl perfformiad newydd. (WAQ1965VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o swyddi newydd y bydd Canolfan Mileniwm Cymru yn eu creu. (WAQ1960VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A welwyd newid yn niferoedd y myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i'w haddysg yng Nghymru ers Mai 1997. (WAQ1961VB)

**Jonathon Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff gomisiynu astudiaeth ariannol o'r lefelau cyfredol o galedi ymhlith myfyrwyr. (WAQ1962VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A oes gan y llywodraeth gynlluniau i dynhau ymhellach y rheolau ar gyfer rheoli sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. (WAQ1964VB)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyngor fydd yn cael ei roi i golegau addysg bellach ynghylch goblygiadau Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (y Colegau Addysg Bellach gynt) (Diwygio'r Offeryn Llywodraethu) (Cymru) (Rhif 2) 1999 yn enwedig o safbwynt y ffaith bod Clercod bellach yn atebol i gyrff llywodraethu colegau addysg bellach ac i CCABC, a sut y bydd yn effeithio ar gontractau cyflogaeth Clercod. (WAQ1979VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Drafnidiaeth a Llywodraeth Leol

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa geisiadau a wnaed ganddo ef i'r Ysgrifennydd dros Drafnidiaeth yn y Llywodraeth yn Llundain i geisio sicrhau fod yr Awdurdod Strategol Rheilffyrdd yn gosod gofynion priodol ar ddarparwyr gwasanaethau rheilffyrdd i gynnal lefel boddhaol o wasanaeth uniongyrchol rhwng Gogledd a De Cymru. (WAQ1983VB) [w]

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o garbon deuocsid a allyrwyd yng Nghymru bob blwyddyn o 1990 tan y flwyddyn hon. (WAQ1982VB)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff ef ddatganiad ar y gofynion am wasanaeth trenau rhwng Gogledd a De Cymru a fu'n sail trafodaethau rhyngddo ef a'r cwmnïau rheilffyrdd; a beth oedd y canllawiau o ran uchafswm y cymorthdal ar gyfer gwasanaeth o'r fath. (WAQ1981VB) [w]

**Dafydd Wigley (Caernarfon);**A wnaiff ef drefnu i'w adran gysylltu â chwmnïau rheilffyrdd gan gynnwys Central Trains, Northwestern Trains, First Great Western, DSW Swansea a chwmnïau priodol eraill, i sefydlu a oes ganddynt ddiddordeb ai peidio mewn rhedeg gwasanaethau tren rhwng Gogledd a De Cymru. (WAQ1980VB) [w]